**Rhif:** WG34227

Llywodraeth Cymru
# Dogfen Ymgynghori

# Model arfaethedig i bennu cyflog ac amodau athrawon

Ymgynghoriad ar y model newydd i bennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 9 Mawrth 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 4 Mai 2018

OGL © Hawlfraint y Goron

# Model arfaethedig i bennu cyflog ac amodau athrawon

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Diben yr ymgynghoriad hwn yw ysgogi trafodaeth gyffredinol a chael eich safbwyntiau ar y model arfaethedig ar gyfer pennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon yng Nghymru. |
| **Sut i ymateb** | Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **4 Mai 2018** fan hwyraf. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgynghoriadau |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Cangen Cyflog ac Amodau Athrawon<br>Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost:<br>SchoolsandYoungPeopleWorkforceUnit@llyw.cymru |

**Diogelu data**

## Sut y byddwn yn defnyddio’r farn a’r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy’n gweithio ar y materion y mae’r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae’n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion i’r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Mae hynny’n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i’ch enw a’ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion.

Mae’n bosibl y bydd yr enwau a’r cyfeiriadau y byddwn wedi’u cuddio yn cael eu cyhoeddi’n ddiweddarach, er nad yw hynny’n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i’r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny’n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae’r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a’i gyfeiriad, bydd hynny’n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â’u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â’r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu’r wybodaeth.

# Cynnwys

**Pam ein bod ni'n cynnal yr ymgynghoriad hwn? 2**

Beth yw ein nodau? 2

Sut mae cyflog ac amodau athrawon yn cael eu pennu ar hyn o bryd? 3

Beth ydym ni'n ei gynnig? 3

Beth rydym am i chi ei wneud? 4

**Atodiad: Model ymgysylltu cyflog ac amodau athrawon (system newydd arfaethedig i Gymru) 6**

## Pam ein bod ni'n cynnal yr ymgynghoriad hwn?

Ar hyn o bryd, Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon yng Nghymru a Lloegr. Yn dilyn Deddf Cymru 2017, cytunwyd i drosglwyddo'r pŵer i bennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon yng Nghymru i Weinidogion Cymru o 30 Medi 2018 o dan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) Hydref 2018. Bydd hyn yn golygu mai Gweinidogion Cymru fydd yn pennu cyflog ac amodau athrawon yng Nghymru o fis Medi 2019. Bydd Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg Llywodraeth y DU yn parhau i bennu cyflog ac amodau athrawon yn Lloegr.

O fis Medi 2018, pan fydd Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb o bennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon, bydd angen i ni gyflwyno mecanwaith (proses enghreifftiol) i benderfynu sut i wneud hyn mewn ffordd a fydd yn cefnogi ein nodau ar gyfer y proffesiwn addysgu yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu agenda feiddgar ar gyfer dyfodol ysgolion yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl.* Mae'r agenda hon yn amrywiol ac yn cynnwys diwygio'r cwricwlwm ac arholiadau, gwell hyfforddiant i athrawon, Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a Safonau Proffesiynol diwygiedig ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.

Ochr yn ochr â'r newidiadau sylfaenol i'r system addysg ehangach yng Nghymru, mae cael y cyfrifoldeb i bennu cyflog ac amodau athrawon hefyd yn rhoi cyfle i ni ddatblygu model cyflog priodol i Gymru – i ystyried sut gall hyn ein cefnogi ni i gyflawni ein diwygiadau ond, yn bwysicach, i sicrhau hefyd fod gennym broffesiwn addysgu brwdfrydig iawn sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu system addysg o safon uchel.

Law yn llaw â'r gwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu Panel Adolygu dan arweiniad yr Athro Mick Waters sy'n cynnal Adolygiad o Gyflog ac Amodau Athrawon Ysgol fel y maent ar hyn o bryd.

Mae'r Adolygiad yn edrych ar a yw'r strwythurau cyfredol yn effeithiol ac ai dyma'r rhai mwyaf addas i'r proffesiwn yng Nghymru a bydd yn ystyried ffyrdd o addasu telerau ac amodau gwasanaeth i wneud y proffesiwn addysgu yn fwy deniadol, boddhaus a gwerth chweil. O'i roi'n syml, mae adolygiad yr Athro Waters yn ymwneud â chynnwys gwirioneddol cyflog ac amodau athrawon ac mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r model i benderfynu sut y dylid eu hystyried/diwygio neu benderfynu arnynt wrth symud ymlaen.

## Beth yw ein nodau?

Y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ein hagenda ar gyfer dyfodol ysgolion yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl*[1]. Mae'r cynllun gweithredu'n canolbwyntio ar godi safonau i bawb, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad, a darparu system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol a hyder cyhoeddus. Mae datblygu proffesiwn addysgu o safon uchel a chreu arweinwyr ysbrydoledig i helpu i godi safonau wedi'u nodi fel prif nodau yn *Ein cenhadaeth genedlaethol* a *Ffyniant i Bawb*: *y Strategaeth Genedlaethol*[2].

---

1 *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl*
http://gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/education-in-wales/?skip=1&lang=cy
2 Ffyniant i bawb: y strategaeth genedlaethol http://gov.wales/about/programme-for-government/?skip=1&lang=cy

Mae'n hanfodol bod unrhyw fodel sy'n cael ei fabwysiadu'n galluogi'r strwythur cyflog ac amodau yng Nghymru i gyfrannu at gyflawni ein nodau o ddatblygu proffesiwn addysgu brwdfrydig iawn ac yn sail i ddarparu system addysg o safon uchel.

Ein nodau cyffredinol ar gyfer system cyflog ac amodau i athrawon yn y dyfodol fyddai cadw natur statudol bresennol cyflog athrawon a hefyd gallu gwneud y canlynol

- Creu strwythur cyflog ac amodau sy'n cyfrannu tuag at broffesiwn addysgu hynod frwd ac sy'n sail i gyflwyno system addysg o ansawdd uchel.
- Sefydlu system deg ac agored sy'n sicrhau ac yn cynnal lefelau priodol o dâl ar gyfer y proffesiwn addysgu ac yn gwella statws y proffesiwn, gan ei gwneud yn haws i ni ddenu, datblygu a chadw athrawon sydd â ffocws ar ein hamcanion penodol i godi safonau mewn ysgolion yng Nghymru.

Ochr yn ochr â'r nodau hyn mae nifer o ymrwymiadau wedi'u gwneud i sicrhau y bydd unrhyw fecanwaith/model newydd yn cynnwys nifer o brif egwyddorion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pennu cyflog athrawon ar sail statudol
- Cael dull cenedlaethol ledled Cymru
- Sicrhau bod cyflogau athrawon Cymru o leiaf yn gyfwerth â chyflogau athrawon mewn ysgolion a gynhelir yn Lloegr
- Sicrhau ymagwedd genedlaethol at ddysgu a safonau proffesiynol
- Bydd polisïau'n cael eu datblygu ar sail tystiolaeth ac arbenigedd cadarn
- Mae'r holl randdeiliaid allweddol yn cael eu cynnwys a'u cynrychioli - h.y. mae egwyddorion partneriaeth gymdeithasol wedi'u cynnwys.

## Sut mae cyflog ac amodau athrawon yn cael eu pennu ar hyn o bryd?

O dan y system gyfredol, mae cwmpas a therfynau ariannol y cylch cyflog yn cael eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, sydd yna'n cyfeirio'r 'cylch gwaith' hwn i'r Corff Adolygu Athrawon Ysgol (STRB). Grŵp o arbenigwyr annibynnol yw'r STRB, a benodir i'r rôl am dymor penodol drwy broses benodiadau cyhoeddus.

Mae'r STRB yn ymgynghori â'r holl randdeiliaid allweddol, yn ystyried yr holl ddata a thystiolaeth perthnasol, cyn darparu argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol. Yna, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn penderfynu a yw am dderbyn a gweithredu argymhellion yr STRB ar gyfer athrawon yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn pennu cyflog ac amodau drwy gyfrwng Gorchymyn (o dan adran 122 o Ddeddf Addysg 2002).

## Beth ydym ni'n ei gynnig?

Rydym wedi ystyried nifer o wahanol fodelau rhyngwladol ar gyfer pennu cyflog ac amodau athrawon ac wedi trafod yr opsiynau a ffefrir gan yr holl randdeiliaid allweddol yng Nghymru, yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cynrychiolwyr cyrff llywodraethu ac awdurdodau esgobaethau sy'n cynrychioli cyflogwyr; a'r holl undebau athrawon a phrifathrawon. Roedd y trafodaethau hyn yn ddefnyddiol ac fe wnaethom ni ddysgu llawer iawn er na chytunodd yr holl randdeiliaid ar un dull penodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried sut gallai'r gwahanol ddulliau gweithredu gyflawni ein nodau a'n hegwyddorion ni ar gyfer system gyflog i athrawon Cymru yn y dyfodol ac wedi datblygu '*Model Ymgysylltu ag Athrawon*' ac am glywed eich barn chi.

Mae'r *Model Ymgysylltu ag Athrawon* yn cynnwys nifer o elfennau o fodelau a weithredwyd mewn mannau eraill ac mae'n glynu at yr ymrwymiadau i weithio mewn partneriaeth, cydweithio a datblygu polisi ar sail tystiolaeth a wnaed gan Weinidogion Cymru.

Gan weithredu ar sail flynyddol gylchol, mae'n cyfuno elfennau corff adolygu annibynnol strwythuredig - tebyg i'r broses gyfredol sydd ar waith yn Lloegr gyda'r Corff Adolygu Athrawon Ysgol (STRB) sydd ag arbenigwyr wedi'u penodi'n annibynnol - a fforwm partneriaeth cymdeithasol - a fyddai'n caniatáu trafodaeth, gwneud penderfyniadau ar y cyd ac ymrwymo i sicrhau atebion a chanfod ffyrdd o symud ymlaen.

Sut rydym yn rhagweld y byddai'r *Model Ymgysylltu ag Athrawon* yn cael ei sefydlu a beth fyddai gwahanol gamau'r broses benderfynu yn eu cynnwys.

Byddai'r model hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i amlinellu telerau a materion (h.y. cylch gwaith drafft) i'w hystyried gan y Fforwm Partneriaeth (a fyddai'n cynnwys aelodau o'r llywodraeth, cyflogwyr ac undebau llafur cydnabyddedig yn cynrychioli gweithwyr). Byddai'r Fforwm hwn yn ystyried y cylch gwaith drafft ac yn gallu cyfrannu at y broses, gan bennu'r agenda a'r paramedrau i'w hystyried wrth symud ymlaen.

Gyda'r holl randdeiliaid allweddol yn cyfrannu, byddai'r Fforwm Partneriaeth nid yn unig yn dwyn cyfoeth o brofiad ac arbenigedd ynghyd ond hefyd yn rhoi cyfle i bawb gyflwyno eu safbwyntiau'n uniongyrchol i'r partïon eraill.

Ar ôl ystyried safbwyntiau'r Fforwm byddai Gweinidogion Cymru'n cyflwyno cylch gwaith 'terfynol' ar gyfer ei adolygu a chraffu arno'n annibynnol. Yna, byddai'r corff adolygu'n gwneud eu hargymhellion ar gyfer diwygio cyflog ac amodau athrawon.

Byddai corff adolygu Cymru'n awdurdod annibynnol, gan ddarparu safbwynt diduedd a hyd braich ar yr holl faterion, a byddai'n dod i gasgliadau ac argymhellion gofalus yn seiliedig ar dystiolaeth gan yr ystod lawn o bartïon â buddiant. Byddai angen dewis a phenodi corff adolygu newydd ar sail eu meysydd arbenigol ac er mwyn cefnogi ac ategu'r gwaith o ddatblygu system addysg Cymru.

Yn olaf, bydd raid i Weinidogion Cymru ddiwygio cyflog ac amodau gwasanaeth statudol athrawon yn flynyddol drwy gyfrwng Gorchymyn (o dan adran 122 o Ddeddf Addysg 2002).

## Beth rydym am i chi ei wneud?

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ysgogi trafodaeth gyffredinol a chael eich barn ar y gwahanol agweddau ar y model arfaethedig. Rydym am weld a ydych chi'n credu bod y '*Model Ymgysylltu ag Athrawon*' yn briodol ar gyfer pennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon yng Nghymru ac a fydd yn cefnogi ac ategu'r gwaith o ddatblygu'r system addysg yng Nghymru.

Fe'ch gwahoddir i gwblhau'r holiadur canlynol. Mae'r cwestiynau wedi'u rhannu'n dair adran:

- Adran A – Y broses gyffredinol arfaethedig
- Adran B – Camau unigol y broses arfaethedig

- Adran C – Cynigion eraill a sylwadau ychwanegol

Efallai y byddwch am ateb rhai, neu'r holl gwestiynau a ofynnir ym mhob adran. Mae croeso i chi gwblhau'r holiadur fel unigolyn neu mewn grŵp.

Cofnodwch eich safbwyntiau ar gyfer bob cwestiwn yr ydych am ei ateb yn y bocs a ddarparwyd. Os yw hynny'n bosibl, rhowch resymau am eich atebion i'n helpu ni i ddeall eich safbwyntiau'n llawn. Mae lle i chi roi gwybodaeth ychwanegol ar ddiwedd y ddogfen.

Llenwch yr adran manylion personol ar ddiwedd y ffurflen. Bydd hyn yn ein helpu i ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Gallwch gwblhau'r holiadur yn electronig neu fel copi caled.

Dylid dychwelyd yr holiaduron wedi'u cwblhau at:

Cangen Cyflog ac Amodau Athrawon
Yr Adran Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: SchoolsandYoungPeopleWorkforceUnit@gov.wales

## Atodiad: Model ymgysylltu cyflog ac amodau athrawon (system newydd arfaethedig i Gymru)

| | GWEITHREDU | AMSERLEN |
|---|---|---|
| **Cam 1** | | |
| Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn drafftio cylch gwaith i'w ystyried | Dosbarthu cylch gwaith drafft ar gyfer cylch cyflog i Gorff Adolygu Cyflogau Cymru | Medi |
| **Cam 2** | | |
| Fforwm Partneriaeth i ystyried y cylch gwaith drafft | Fforwm yn cynnig sylwadau ar gynnwys y cylch gwaith<br><br>Cyfle i awgrymu eitemau eraill i'w cynnwys<br><br>Mewnbwn i agweddau posibl ar ymchwil sy'n ofynnol<br><br>Yn dilyn ystyriaeth o safbwyntiau'r Fforwm, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i gyflwyno'r cylch gwaith terfynol i gorff Adolygu Cymru ar gyfer adolygu a chraffu annibynnol. | Medi i ganol Hydref |
| **Cam 3** | | |
| Corff neu Banel Adolygu Cymru | Corff neu Banel Adolygu Cyflogau Cymru'n comisiynu tystiolaeth<br><br>Paratoi tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig<br><br>Casglu data ac ystadegau a'u cyflwyno i'r Corff Adolygu Cyflogau | Tachwedd i ddiwedd Ionawr |
| **Cam 4** | | |
| Corff Adolygu'n cyflwyno adroddiad ac argymhellion | Corff Adolygu Cyflogau'n ystyried tystiolaeth ac yn cyflwyno adroddiad ac argymhellion i Ysgrifennydd y Cabinet | Erbyn diwedd Chwefror |
| **Cam 5** | | |
| Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad | Ysgrifennydd y Cabinet i benderfynu ar gynigion Llywodraeth Cymru ar ôl ystyried adroddiad ac argymhellion y Corff Adolygu | Mawrth ac Ebrill |
| **Cam 6** | | |
| | Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol | Dechrau Mai |

| | | |
|---|---|---|
| Ymgynghoriad | Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried yr ymatebion ar gyfer gwneud penderfyniad terfynol | Diwedd Mai |
| **Cam 7** | | |
| Penderfyniad | Gweithredu drwy orchymyn cyflogau erbyn 1 Medi | Dechrau Awst |